



Swydd:	Swyddog Datblygu EVI Yn gweithio yn Institiwt Glyn Ebwy, Church Street, Glyn Ebwy
Cyflwg:	Graddfa 3-4 £16,926 - £18,453, yn ddibynnol ar brofiad
Oriau Gwaith:	Rhan amser 25 awr yr wythnos
Gwyliau:	23 diwrnod y flwyddyn pro rata
Atebol i:	Cydlynnydd Gweithrediadau
Contract:	Parhaol yn amodol ar gyllid

PRIF BWRPAS Y SWYDD

- I bersonoli'r ddelwedd gorau bosib o Ganolfan Diwylliannol yr EVI gyda'ch sgiliau gwasanaeth cwsmer a derbynfa ragorol.
 - Gweithio gydag Uwch Reolwyr i ymgymryd â gweithgareddau marchnata yn y ganolfan, gan gynnwys postio am ddigwyddiadau, dosbarthiadau, gwasanaethau a chyfleusterau ar y we ac ar gyfryngau cymdeithasol a datblygu a rhoi ar waith strategaeth marchnata'r EVI.
 - Gweithio gyda rheolwr y bar i gefnogi gyda threfniadau didrafferth ar gyfer digwyddiadau trwyddedig, yn cysylltu gyda'r hyrwyddwyr, bandiau a'r rhai sydd yn llogi'r lleoliad ar gyfer parti preifat.
 - Gweithio gyda'r Cydlynnydd Gweithrediadau i ddatblygu a darparu'r swyddogaethau gweinyddol a gweithredol yng Nghanolfan Diwylliannol yr EVI.
-

DERBYNFA:

1. Darparu croeso cwrtais a chyfeirio ymwelwyr yr EVI.
2. Derbyn, monitro a chofnodi archebion llogi ystafelloedd a chyfleusterau'r EVI e.e. gan hyrwyddwyr cerddoriaeth, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau lleol, partiön preifat, darparwyr gwasanaeth ac aelodau'r gymuned.
3. Ymdrin ag ymholiadau gan y tenantiaid/llogwyr/ymwelwyr a darparu gwybodaeth ar gyfleusterau a gwasanaethau'r EVI.
4. Derbyn galwadau, cyfeirio galwadau yn effeithiol a chymryd negeseuon fel sydd ei angen ar gyfer holl staff a thenantiaid yr EVI.

MARCHNATA:

1. Gweithio gyda'r Uwch Reolwyr a'r tîm EVI, cyflawni gweithgareddau marchnata ar gyfer canolfan yr EVI, y chyfleusterau / gwasanaethau / digwyddiadau / dosbarthiadau.



2. Marchnata digwyddiadau, dosbarthiadau a chyfleusterau ar wefan a chyfryngau cymdeithasol yr EVI.
3. Sicrhau bod posterï a thafleuni gwybodaeth yn gyfoes ac ar gael i ymwelwyr.
4. Diweddarau rhaglen digwyddiadau a dosbarthiadau'r EVI, rhannu hwn gyda'r cyhoedd ac ysgrifennu darnau newyddion wythnosol i helpu hyrwyddo'r ganolfan a'i gweithgareddau.
5. Cyflawni ymchwil farchnad, datblygu a gweithredu strategaeth marchnata'r EVI.

DIGWYDDIADAU TRWYDDEDIG

1. I gefnogi'r Digwyddiad Trwyddedig fel gofynnir yn y weithdrefn Digwyddiadau Trwyddedig, e.e. cysylltu gyda hyrwyddwyr, cysylltu gyda rheolwr y bar am logisteg y digwyddiad, fel cadarnhau swyddogion diogelwch/peiriannydd sain/amseroedd mynediad.
2. Dirprwyo'r rheolwr bar yn ystod digwyddiadau trwyddedig, yn cyflawni cyfrifoldebau'r rheolwr dyletswyddau fel sydd angen.
3. Cyflawni ymchwil marchnad fel sydd angen a choladu'r bas data adloniant argymelledig e.e. bandiau cyfro, DJ's ayb.
4. Gweithio gyda'r tîm i ddatblygu pecyn digwyddiadau'r EVI, gan gynnwys pecynnau priodas, partïon plant, seremonïau gwobrwyo, arddangosfeydd celf.
5. Cwblhau adroddiadau Cymdeithas Hawliau Perfformio yn chwarterol.

GWEINYDDIAETH A DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

1. Sicrhau bod cofnod cywir yn cael ei lenwi'n fisol o'r mesuryddion cyfrif pobl gywir ac amserol.
2. Hysbysu'r gyflogres yn fisol am yr oriau sydd yn cael ei weithio gan staff achlysurol.
3. Bod yn ymwybodol o reolau lechyd a Diogelwch a Thân perthnasol a gweithredu'n unol â hynny i anwytho defnyddwyr newydd yr adeilad a sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau yn unol â gofynion deddfwriaethol.
4. I gefnogi a chynorthwyo'r Cydlynnydd Gweithrediadau fel sydd yn ofynnol.
5. Cefnogi'r gofalwr a'r tîm digwyddiadau i osod dodrefn ac offer yr EVI, sicrhau bod yr holl offer wedi cyfrifo ac yn ddiogel bob tro.

Oriau gwaith

Bydd angen gweithio oriau hyblyg oherwydd natur y swydd o fewn yr EVI, ond bydd angen i chi sicrhau eich bod yn gweithio o fewn yr oriau sydd yn ofynnol i'ch swydd



fel amlinellir yn y swydd ddisgrifiad. Bydd rhaid cael caniatâd i weithio unrhyw oriau ychwanegol cyn i chi gyflawni'r gwaith pan fydd hyn yn bosib.

Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau uchod, bydd disgwyl i'r un sydd yn dal y swydd i gyflawni dyletswyddau a thasgau eraill, fel sydd angen, i sicrhau effeithlonrwydd gweithrediadau yn yr EVI ac i sicrhau bod y sefydliad yn cyfarfod ei ganlyniadau a'i amcanion yn llwyddiannus.

Mae holl staff yr EVI yn gweithio â'i gilydd i gyfarfod anghenion y ganolfan a'r cwsmer ac felly byddant yn gweithio ar draws swyddi pan fydd angen.

Manylion y Person

Gofyniad	Hanfodol	Dymunol	Sut Canfyddir / Asesir
Addysg/ Cymwysterau:	Addysg at safon TGAU	Cymwysterau yn benodol i'r swydd	Ffurflen gais a chyfweliad
Profiad / Gwybodaeth:	2 flynedd o brofiad mewn swydd debyg	Profiad rheoli digwyddiadau a bar Profiad o weithio yn y sector, neu mewn sefydliad ieuencid statudol/gwirfoddol	Ffurflen gais a chyfweliad Ffurflen gais a chyfweliad
Sgiliau / Gallu:	Profiad lechyd a Diogelwch mewn adeilad Cyhoeddus Sgiliau trefnu a chynllunio gwyh Sgiliau TG gwyh a phrofiad o farchnata Sgiliau gwasanaeth cwsmer/derbyn ymwelwyr gwyh Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol gwyh	Gwybodaeth lechyd a Diogelwch	Ffurflen gais a chyfweliad Ffurflen gais a chyfweliad Ffurflen gais a chyfweliad Ffurflen gais a chyfweliad Ffurflen gais a chyfweliad
Priodoleddau personol:	Brwdfrydedd Hunan-ysgogiad Arloesol		Cyfweliad



	Parodrwydd i weithio'n hyblyg		
Gofynion eraill:		Siarad Cymraeg - neu barodrwydd dysgu	Cyfweliad
		Trwydded yrru lân cyfoes	Ffurflen gais a chyfweliad
		Profiad neu barodrwydd i dderbyn hyfforddiant i ddefnyddio offer gweledol taflunio/sain	Ffurflen gais a chyfweliad

Gwerthoedd ProMo-Cymru

Mae ProMo-Cymru yn gwerthfawrogi ei weithwyr, gyda phwyslais ar sgiliau a datblygiad personol.

Rydym yn creu cydbwysedd o waith tîm, hunanlywodraeth a syniad o gyfrifoldeb wrth weithio tuag at wella ein gwasanaethau a'n cynnyrch. Hynny yw, rydym yn gweithio'n galed ar ran, a gyda'n cleientiaid a'n partneriaid, ac yn mwynhau rhannu'r gwobrwyon gyda nhw.

Mae ProMo-Cymru yn annog ei weithwyr i fod yn rhan o'r broses arweinyddiaeth a phenderfyniadau, yn rhoi sylw personol i eraill a gwneud i bob unigolyn deimlo gwerthfawrogiad unigryw. Mae ysgogiad deallus yn annog golwg newydd ar hen ddulliau, yn ysgogi creadigrwydd ac yn annog eraill i edrych ar broblemau a phynciau mewn ffordd newydd.